

14–16 oed

Adeiledd a bondio

Datrys diffiniadau



Education
Inspiring your teaching and learning

Wedi'i lawrlwytho o rsc.li/496HPSP

Diffiniadau wedi eu datrys

Mae **bond ïonig** yn rym atyniad electrostatig rhwng ïonau â gwefr ddirgroes mewn dellten reolaidd sy'n ffurfio rhwng metel ac anfetel.

Mae **bond cofalent** yn fath o fond sy'n cael ei ffurfio gan atomau sy'n rhannu o leiaf un pâr o electronau.

Mae **bond metelig** yn rym atyniad electrostatig rhwng electronau dadleoedig a'r ïonau positif mewn dellten reolaidd.

Mae **elfen** yn sylwedd pur sydd wedi ei wneud o un math o atom yn unig.

(mwy ar y sleid nesaf)

Diffiniadau wedi eu datrys - parhad

Mae **cyfansoddyn** yn sylwedd pur wedi ei wneud o ddwy neu ragor o wahanol elfennau y mae bondiau cemegol yn cysylltu eu hatomau; mae'r atomau mewn cymhareb sefydlog.

Atom yw'r gronyn lleiaf posibl o elfen; mae atomau wedi eu gwneud o brotonau, niwtronau ac electronau.

Moleciwl yw dau atom neu ragor wedi eu cysylltu gan bondiau cemegol.

Grymoedd **rhyngfoleciwlaidd** yw'r grymoedd atynnu a gwrthyrru cymharol wan rhwng moleciwlau.

Cwblhau'r cysylltiad: brawddegau cyflawn

Pan fydd metel ac anfetel yn adweithio, mae'r metel yn colli un neu fwy o electronau ac **o ganlyniad**, mae'n troi'n ïon â gwefr bositif. **Ar y llaw arall**, mae'r anfetel yn ennill un neu fwy o electronau i fod yn ïon â gwefr negatif. Mae bond ïonig yn cael ei ffurfio **oherwydd** bod yr ïonau â gwefr ddirgroes yn cael eu dal at ei gilydd gan atyniad electrostatig.